



Sioned Young

Oed: 25

Lleoliad: Caernaerfon

Enw Busnes: Mwydro

✉ info@mwydro.com

Pam eich bod wedi penderfynnu sefydlu busnes?

Mi wnes i ddewis cychwyn fy musnes Cardiau Mwydro er mwyn cael allbwn creadigol gyda'r nos ac ar benwythnosau pan nad oeddwn i yn y gwaith. Ces i hefyd y cyfle i werthu fy nghardiau mewn Marchnad Nadolig lleol, a derbyn adborth cadarnhaol ar ba mor unigryw oedd fy nghardiau gan eu bod nhw wedi eu creu yn gyfan-gwbl a llaw. Wnes i weld bwllch yn y farchnad a dewis mynd amdani! Pan wnaeth y pandemig taro blwyddyn i mewn i redeg fy musnes, wnes i addasu o werthu mewn Ffeiriau Crefftau ledled Cymru i werthu ar lein - a cheisio am le ar gynllun Llwyddo'n Lleol er mwyn gallu datblygu fy musnes ymhellach.

Sut mae Llwyddo'n Lleol/Amser i Fentro wedi eich helpu i ddatblygu?

Wnaeth derbyn grant gan Llwyddo'n Lleol pan yn rhan o'r cynllun dros yr Haf yn 2020 fy ngalluogi i archebu iPad ac Argraffydd i fy musnes - a wnaeth cael effaith enfawr ar ddatblygiad y busnes. Nid yn unig ces i fentro i mewn i'r maes o ddylunio cardiau'n ddigidol, ond mi wnes i hefyd ddysgu fy hun sgil newydd - sef creu GIFs wedi'i animeiddio i Instagram. Erbyn heddiw dwi'n rhedeg gwasanaeth GIFs i fusnesau llwyddiannus fel rhan o fy musnes, yn gwasanaethu busnesau o bob maint ledled Cymru! Ni fyddai hyn y bosib heb help Llwyddo'n Lleol. Mae fy hyder personol a hyder yn y busnes wedi cynyddu'n enfawr diolch i Llwyddo'n Lleol 2050 ac Amser i Fentro a'r heriau cyfryngau cymdeithasol a oedd yn gwthio ni i gyflwyno ein hunain ac ein busnesau i'r byd gyda hyder a balchder. Mae rhedeg busnes dy hun yn gallu bod yn unig iawn ar adegau, yn enwedig os ydw i'n rhedeg busnes ar-lein - felly mae Llwyddo'n Lleol wedi bod yn grêt ar gyfer fy rhoi mewn cysylltiad â rhwydwaith cryf o bobl ifanc sy'n mentro fel y fi.

Beth yw eich gobeithion i'r busnes wrth symud ymlaen?

Dwi'n awyddus iawn i ddatblygu fy ngwasanaeth GIFs i fusnesau ymhellach. Mae hwn yn wasanaeth cwbl unigryw i unrhyw beth arall sydd allan ar y farchnad, ac y mae o'n cefnogi fy angerdd am fusnesau bach a'u helpu i sefyll allan o'r dorf. Dwi'n gyffrous am sgôp y gwasanaeth i gyrraedd busnesau o bob math o sectorau ac o bob rhan o'r byd, a'n agored iawn i dderbyn unrhyw gefnogaeth gan unrhyw un gall agor drysau i mi i'r farchnad ehangach o fusnesau sy'n awyddus i wella eu hymdrechion marchnata ar gyfryngau cymdeithasol. Ac mae'r cardiau yn parhau i fod yn bwysig iawn i mi, a'r gobaith yw fy mod i - fel pam wnes i ddewis i gychwyn fy musnes yn y lle cyntaf - yn cael y cyfle i fwynhau i fod yn greadigol!

Pe bai gennych un frawddeg i ddweud wrth berosn ifanc arall sy'n meddwl dechra busnes, be fysa'r frawddeg honno?

Coelia yn dy hun a cher amdani!

@Mwydro

